

37)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader --Chwefror 20fed 2017—20/02/17-- 7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present: Val Davies,Glyn Jones,Raymond Lewis,Haulwen Lewis,Eirian Jones,

Keith Lewis,Annette Davies,Yvonne Griffiths,Sian Thomas,Melfyn Evans.Bethan Edwards,Kathryn Harries (innogy)4 inhabitants of Bro'r Hen Wr.

Clerc:Anita Evans,Ymddiheuriadau:Lynn Evans,Marc Jones.

1)Croesawodd Val Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.Cafwyd gair gan y ddwy swyddog o gwmni gwynt Innogy;Bethan Edwards yn sôn am y datblygiad sy wedi digwydd,a'r gwaith fydd yn digwydd yn y 6 mis nesa,e.e.gosod ceblau a symud twrbeini.Gofynnodd M.Evans a oeddent yn bwriadu glanhau'r gwteri ochr draw White Hart a Llwynwallter gan fod dŵr yn dod mas i'r hewl—addawodd B.Edwards ofyn i'r C.Sir.Gweithio ar ochr y Gronfa Gymunedol mae K.Harries.Esboniodd fod y gwaith yn rhannu i ddwy haen-un i'r ardal ledanach a'r llall yn fwy lleol a chymunedol.Bydd pobl leol yn cael y cyfle i eistedd ar y panel yma.Cyrrhaeddodd H.Lewis ar ol i'r ddwy adael.

Two officers from Innogy attended the meeting.Bethan Edwards outlined the work already carried out,and explained the work for the next 6 months—laying cables,and movement of turbines possibly in June.M.Evans asked if the drainage opposite White Hart/Llwynwallter could be improved.Kathryn Harries works on the Community Benefit Fund project.She explained that the distribution would be 2 tier;one for the wider area(regional)and the other more localised as a community fund.We will be consulted soon with more details,and local people will have a chance to sit on this panel.H.Lewis arrived after the visitors left.

2)Doedd dim datganiad o ddiddordeb/no declaration of interest.

3)Deiliaid Bro'r Hen Wr---esboniodd y cadeirydd fod deiliaid Bro'r Hen Wr wedi bod yn ymladd ers 2008 ar i'r datblygwr wella cyflwr y seif,ac heb lwc.Mae'r Cyngor yma yn cyfathrebu â'r C.Sir am y mater yn wythnosol.Cynghorwyd yr ymwelwyr i fynd at eu haelod Cynulliad.Inhabitants of Bro'r Hen Wr attended the meeting,and the chairman explained their frustration in failing to get the developer to improve the road in the site,attend to fused street lights and clear the overgrowth.They were advised to contact the Assembly member as it seems we have all failed in trying to get a satisfactory conclusion from the County Council.They were thanked before they left;they also thanked this Council in our attempts.

4)Doedd dim heddwys yn bresennol.Roedd PCSO Eleri Morgan wedi anfon neges yn gofyn am gymorth.No police present but PCSO Eleri Morgan had sent this message needing the community's help:"sometime between 28th and 29th of January 2017 persons unknown have caused damage to a number of fencing posts,by snapping and bending them,in Llanfihangel ar arth.Anyone with info.please contact PC 251 at Lampeter Police Station on 101"

Neges gan Eirian Jones i'r Heddwys—plant yn reidio beiciau ym Mhencader heb olau/E.Jones wanted to report to the Police that children are riding bikes around Pencader without lights-this is very dangerous.

38) 5)Cofnodion mis Ionawr/Jan.minutes—found to be correct (p.M.Evans s.R.Lewis).

Materion yn codi: 1)Clerc wedi cysylltu â J.McEvoy yn dilyn cais gan Mrs.L.Bushin am linellau ffordd ar bwys y Bakery Pencader,er mwyn gwneud yr hewl i Fferm Lanawmor Isaf yn fwy diogel—penderfynnodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn rhoi cyfeiriad e-bost Mr.McEvoy i Mrs.Bushin gael cysylltu ag e'n uniongyrchol/John McEvoy's e-mail will be sent to Mrs.Bushin so that she can put her request for white lines by the Bakery.

2)Praesept—yn dilyn cyfarfod cyllid,penderfynnwyd gofyn am swm o £45,000 ar gyfer 2017-18.Cynnigiodd A.Davies ac fe eiliodd H.Lewis.The Praesept asked for by this Council for 2017/18 is £45,000.

3)Arwel Price—adran Golau ffyrdd:bydd yn anfon rhestr fanwl o leoliadau y golau mae'r Cyngor yma yn talu cyn hir.I ateb ein cwestiwn arall am osod golau LED-mae hyn yn cael ei wneud yn gyson fel mae'r hen fylbiau'n dod i ben.We have asked the County Council for a detailed list of street lights paid for by this Council—and Arwel Price has promised one soon.The LED lights are fitted as the old bulbs fuse.

4)Cyfrifydd: wedi gofyn i'r Clerc gasglu/accountant has asked the Clerk to collect his"letter of engagement".

5)Biniau—C.Sir Linda Evans wedi cael addewid gan Marc Davies bydd bin newydd ar bwys Glennydd wythnos ma,a bydd y ddau yn New Inn wedi eu gwagio.Marc Davies has promised to place a new bin near Glennydd,and that the 2 either side of New Inn bus stop will be emptied.

6)Cwrs Côt Ymddygiad: K.Lewis wedi bod ar y cwrs yn Rhydaman,ac wedi ei ffeindio'n ddefnyddiol.

6)Ariannol/financial: cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement found to be correct—(p.A.Davies;s.E.Jones)Biliau i'w talu/bills to pay:cyflogau(wages)£1,007.72;costau'r Clerc(2/01—15/05)--£54.00;ffeiliau/paper files-6.82;Un Llais Cymru aelodaeth(subs)£289.00;Web's Wonder(repair after virus)£140.00;C.SirGâr(golau/light/energy)£9,492.34. HMRC--£251.80.Bydd rhain yn cael eu talu/bills will be paid p.H.Lewis,s.Y.Griffiths.

7)Gohebiaeth/Correspondence:C.Sir Gâr/C.C.Council:

a)Fforwm Cyswllt mis Chwefror wedi ei ganslo/local forum has been cancelled for February.

b)Ymgynghoriad Bt—rhaid ail-ddechrau achos fod BT heb osod hysbysiadau dwy-ieithog yn y ciosgau/BT consultation has to re-start because BT failed to place bilingual notices in the affected pay-phones.

c)Parêd Dewi Sant Caerfyrddin Chwefror 25ain/Saint David's Parade.

Eraill: ch)U.Ll.Cymru—gwahoddiad i ad-newyddu aelodaeth/One Voice Wales invitation to re-new our membership.

d)U.Llais Cymru—cofnodion/minutes from One Voice Wales Llandovery meeting.

dd)Bwrdd Iechyd Hywel Dda nodiadau oddiwrth y cyfarwyddwr newydd/letter from Hywel Dda Uni.Health Board.

e)C.FF.I. Sir Gâr —dau docyn i'r rali flynyddol.

f)H.Lewis —wedi anfon llythyr gyda nifer o bwyntiau—1)Pwyllgor yr Hen Gapel yn meddwl agor yr arddangosfa o fodel Gorsaf Dren Pencader ar benwythnos Sulgwyn,ac yn gofyn ydy'r Cyngor Cymuned am fod yn rhan o'r trefnu.Gofynnwyd i H.Lewis ofyn i'r pwyllgor am fanylion.2)Hewl Beehive lan i'r Cornel Bicnic mewn cyflwr ofnadwy/road from Beehive up to the proposed Picnic Area is in a very bad condition.3)Sbwriel ar yr hewl yma hefyd/also fly-tipping here.4)Dŵr yn tarddu ger Beehive a nes lawr y ffordd fawr/water springing near Beehive.5)Hewl ger Crossmaen yn wael/road surface near Crossmaen in a very bad state.

39)Gohebiaeth parhâd:

ff)Menter Cwm Gwendraeth—Gweithredu Ynni Lleol.

g)One Voice Wales—holding a webinar-27/02.

ng)Panel Annibynnol Cymru/Independent Remuneration Panel for Wales—penderfynnwyd derbyn category 48 a 49.It was decided to adopt category 48(travel expenses) and 49 (expenses incurred if an overnight stay is required on Council business).

h)Penderfynnwyd cytuno ag asesiad llesiant y C.Sir/resolved to agree with County Council's well being assessment.

U.F.Arall/A.O.B:

R.L.----Pont Cwmgwen—mwd ar ochr y bont/mud on right hand side of bridge facing Carmarthen.

A.D.----trash yn y Cornel Bicnic;sbwriel yn y cloddiau;perchnogion cŵn yn taflu bagiau'r baw i'r cloddiau;mae'r arosfan bws ar sgwâr Pencader mewn man eitha lletchwith—problem gyda gyrrwyr yn troi fewn i hewl Gwyddgrug pan fo bws wedi aros.Rubbish thrown into hedges;bus stop on Pencader junction with the Gwyddgrug road is in too near the junction.

G.J---dŵr ar ben hewl Penbanc/water rising into a fountain.

K.L.---clustoge cyflymder mewn stâd gwael;iete'r Cornel Chwarae heb eu cywiro/speed humps are in a bad condition;gates in the Play area need attention.

S.T.—rhywun wedi bod yn paentio'n toiledau Alltwalis;bin tu fas,ac un y Fynwent heb eu gwagio/bins in Alltwalis have not been emptied.

E.J.—eisiau tynnu sylw at yr enw Heol y Felin,Pencader— nid Hewl Glanawmor yw'r enw cywir.

M.E.—hewl fawr ochr draw White Hart/Llwynwallter wrth fynedfa'r Fferm Wynt—mae eisiau clirio'r gwteri,ac mae tyllau yn yr hewl;plant yn chwarae ar yr hewl yn Heol Glanawmor/Marshlands—perylus;gwaith gwella ar bwys Nantygelli,a Phantglas,New Inn,Neuadd Deg Hewl Talog heb eu gwneud.Pot holes and drainage near the Wind Farm entrance need to be rectified;street scene have not made improvements where we have requested.

C.Sir L.E.—cais am balmant i Dremle wedi ei anfon/application for pavement from Pencader to Tremle- submitted.

Y.G.---golau fflachio Bro Nantlais ddim yn gweithio o hyd;arwynebedd heibio Tanfforddougou yn wael iawn/road surface near Tanfforddougou is very poor,and in Gwyddgrug village.DFS sign near Bro Nantlais still not working.

H.L.—gofyn am hanes gosod defibrulators yn y Plwyf--mae Eirian Jones yn disgwyl clywed oddiwrth mudiad Cariad/E.Jones has not heard back from Cariad re defibrulators.

V.D.—pethau heb wella ar bwys Arwerydd/no progress re pavement Arwerydd,Pontweli.

